# Gyrru ar ôl cael strôc



## Niwroleg

Os oes gennych drwydded i yrru car neu feic modur (trwydded categori B) dywed y DVLA **na ddylech yrru am <u>o leiaf</u> mis ar ôl cael strôc neu TIA.** Mae'n rhaid i rai pobl roi'r gorau i yrru am fwy o amser, neu ni fydd rhai pobl yn gallu gyrru eto. Ar ôl i chi wella'n ddigonol, efallai y cewch ddechrau gyrru eto os nad oes unrhyw effeithiau hirdymor sy'n effeithio'n sylweddol ar eich galluoedd gyrru. Mae’r rheolau ar gyfer pobl sydd wedi cael sawl TIA neu sydd am yrru cerbydau gwasanaeth cyhoeddus/cerbydau nwyddau trwm/ bysus yn wahanol.

Os oes gennych rai anawsterau o hyd ar ôl mis a allai effeithio ar eich gallu i yrru, yna bydd angen i chi hysbysu'r DVLA. Efallai y bydd angen asesiad neu adsefydlu pellach arnoch hefyd cyn i'ch meddygon neu'r DVLA deimlo eich bod wedi gwella'n ddigonol i ddechrau gyrru eto.

Mae cyfyngiadau gyrru ar waith ar gyfer cyflyrau iechyd eraill hefyd (e.e. rhai mathau o waedlif, os ydych yn profi ffitiau ar ôl cael eich strôc, neu wedi cael sawl strôc neu sawl TIA). Gofynnwch i'ch therapydd neu eich meddyg a all eich cynghori ymhellach ar ganllawiau'r DVLA ar gyfer eich cyflwr/cyflyrau iechyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yswiriant modur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddweud wrthynt am unrhyw newidiadau i'ch iechyd er mwyn i'ch yswiriant aros yn ddilys, **felly efallai y bydd angen i chi ddweud wrth eich darparwr yswiriant eich bod wedi cael strôc.**

**Sut gallai strôc effeithio ar fy ngyrru?**

Ar ôl cael strôc **efallai y bydd eich gallu i yrru'n ddiogel yn cael ei effeithio mewn sawl ffordd**. Er enghraifft, efallai y bydd newidiadau i'ch galluoedd corfforol neu weledol, neu efallai y cewch anhawster yn canolbwyntio am gyfnodau hir neu wneud penderfyniadau cyflym.

Gall strôc effeithio ar eich gallu i yrru'n ddiogel o hyd, hyd yn oed os oeddech yn yrrwr medrus neu brofiadol iawn cyn iddo ddigwydd.

Gall y therapyddion sy'n gweithio gyda chi asesu rhai o'r sgiliau corfforol a gwybyddol sydd eu hangen arnoch i yrru fel rhan o'u gwaith gyda chi. Gall canlyniadau'r asesiadau hyn helpu'ch meddygon a'r DVLA i wneud penderfyniadau o ran eich caniatáu i yrru eto. Mae'r DVLA yn gwneud y penderfyniad terfynol am drwyddedu gyrwyr.

Os nad ydych yn siŵr a oes angen i chi roi'r gorau i yrru, gallwch ffonio'r DVLA yn uniongyrchol i ofyn iddynt a byddant yn gallu rhoi gwybod i chi a yw'n ddiogel i chi ddechrau gyrru eto ar yr adeg honno.

I gael mwy o wybodaeth am ganllawiau'r DVLA a'r Llywodraeth ynghylch gyrru ar ôl cael strôc, ewch i: https://www.gov.uk/health-conditions-and-driving

**PWYSIG: Mae'r wefan GOV UK yn dweud y gallwch gael dirwy o hyd at £1,000 os nad ydych yn dweud wrth y DVLA am gyflwr meddygol sy'n effeithio ar eich gyrru. Efallai y cewch eich erlyn os ydych yn cael damwain o ganlyniad.**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English"**